OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 798

# Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

## RHAN 4

Pwerau a dyletswyddau CNC

**Monitro**

**23.**—(1) Rhaid i CNC fonitro yn unol â'r rheoliad hwn—

(a) cydymffurfedd personau sy'n gynhyrchwyr neu a all fod yn gynhyrchwyr â'u rhwymedigaethau casglu data a'u rhwymedigaethau adrodd am ddata, a

(b) cydymffurfedd gweithredwyr cynlluniau â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt yn rheoliad 20(1).

(2) At ddibenion cyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn, caiff CNC gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig ("hysbysiad gwybodaeth")—

(a) i unrhyw berson y mae arno, neu y mae gan CNC reswm i gredu bod arno, rwymedigaethau casglu data neu rwymedigaethau adrodd am ddata;

(b) mewn perthynas ag unrhyw berson sy'n aelod o gynllun cofrestredig, i weithredwr y cynllun hwnnw.

(3) Caiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gadw cofnodion, a chyflenwi i CNC unrhyw ddata a bennir yn yr hysbysiad y mae CNC yn ystyried yn rhesymol fod ei angen arno at y dibenion hynny, ar ba ffurf bynnag ac o fewn pa gyfnod bynnag ar ôl cyflwyno'r hysbysiad, neu ar ba adeg bynnag, a bennir yn yr hysbysiad.